Trefnwch arddangosfa yn eich dosbarth neu'ch ysgol ac ysgrifennwch esboniad i'w draddodi yng nghyfarfod boreol yr ysgol o'r hyn y mae'r dysgwyr wedi'i ddysgu yn ystod y prosiect hyd yn hyn. Gwahoddwch fyfyrwyr eraill i ysgrifennu llythyrau i'r cyngor ffoaduriaid lleol i'w wahodd i ddod i'r ysgol i siarad am brofiadau ffoaduriaid.

Gwers 6

<p>Teitl y Wers:</p>	<p>Y Goeden Broblemau</p> <p>Bydd y wers yma'n galluogi'r dysgwyr i feddwl yn feirniadol am y daith a gyflawnir gan ymfudwyr gan edrych mewn modd ehangach ar y gwahanol broblemau, effeithiau a datrysiadau, gan gynnwys ymchwiliad manylach i'r bobl hynny sy'n cael eu gorfodi i ffoi. Cysylltir hyn wedyn â phrofiad y Cyfweledigion Ifanc, Ymfudol, Cymreig (YMW) sydd wedi symud i Gymru am resymau economaidd efallai. Bydd y dysgwyr yn meddwl am sut gallwn ni wneud y daith hon yn rhwyddach i unrhywun sy'n ymfudo i wlad newydd.</p>	<p> Cysylltiadau â'r Cwricwlwm:</p> <p>Addysg Personol a Chymdeithasol Datblygu cyfathrebiad Datblygu syniadau</p> <p>LNF (Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol) Llafaredd: Siarad, gweithio ar y cyd a thrafod Darllen: Deall, ymateb a dadansoddi</p> <p>Y Pedwar Diben (Dyfodol Llwyddiannus) Dysgwyr uchelgeisiol a medrus Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd Dinasyddion gwybodus a moesegol</p>
<p>Cwestiynau allweddol / pwyntiau meddwl</p>	<p>Beth yw'r problemau sy'n gysylltiedig â thaith ymfudwyr, a'u heffeithiau?</p> <p>Pa ddatrysiadau i broblemau taith yr ymfudwyr?</p> <p>Sut gallwn ni fel cymuned wneud taith yr ymfudwyr yn rhwyddach iddynt?</p>	
<p>Amcanion y wers:</p>	<p>Didoli achosion y broblem, ei heffeithiau a'r datrysiadau, gan ddefnyddio'r goeden broblemau fel trefnydd graffig.</p> <p>Cyd-benderfynu datrysiadau a meddwl am ffyrdd o wneud newidiadau positif.</p>	
<p>Dibenion a deilliannau'r wers:</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn rhestru'r problemau a'u heffeithiau ar daith yr ymfudwyr i Gymru.</p> <p>Mae'r dysgwyr yn darganfod ac yn trafod datrysiadau'r problemau y gall ymfudwyr eu hwynebu wrth ddod i Gymru.</p> <p>Mae'r dysgwyr yn trefnu'r datrysiadau dichonol trwy gyfrwng gweithgaredd Diemwnt 9.</p>	
<p>Adnoddau:</p>	<p>Ffilm YMW Lluniau YMW</p> <p>Taflen wybodaeth (O Fagloriaeth Cymru: Ffoaduriaid, Adnoddau Addysg Oxfam)</p> <p>Lluniau o argyfwng y ffoaduriaid (O Fagloriaeth Cymru: Ffoaduriaid - Adnoddau Addysg Oxfam)</p> <p>Coeden broblemau o: Global Citizenship in the Classroom: A Guide for Teachers (Oxfam, 2015)</p> <p>https://www.oxfam.org.uk/education/resources/global-citizenship-in-the-classroom-a-guide-for-teachers</p> <p>Diemwnt 9</p>	
<p>Amser sydd eisiau:</p>	<p>60 munud</p>	

I ddechrau: Gobeithion ac ofnau mewn het

Defnyddiwch bapur o liwiau gwahanol i gynrychioli gobeithion ac ofnau. Gofynnwch i'r dysgwyr ateb y cwestiynau canlynol ar ddarnau papur o'r lliw priodol:

Cwestiwn 1: Beth yw eich gobeithion a'ch ofnau chi fel pobl ifanc?

Cwestiwn 2: Beth yw eich gobeithion a'ch ofnau ar gyfer ymfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches?

Rhannwch rai o'r syniadau o'r het.

Arweiniwch drafodaeth yn gofyn pa bethau sy'n debyg ac yn wahanol rhwng y bobl fanc hyn a'r rhai sydd wedi ymfudo i Gymru. A oes yna gyffelybiaethau rhwng profiadau'r ddau grŵp?

Gweithgaredd 1: Achos, effaith a datrysiad

Yn gyntaf trafodwch ystyr y termau "achos", "effaith" a "datrysiad".

Rhannwch y dysgwyr mewn grwpiau. Gofynnwch iddynt gydweithio at greu syniadau sy'n esbonio achosion ac effeithiau ymfudiad gorfodol. Gellir gwahodd y dysgwyr i fyfyrion am y gwaith a gyflawnwyd i gwblhau'r Gadwyn Pam-pam-pam.

Rhowch i'r dysgwyr ffeithiau ac ystadegau i ehangu eu trafodaeth (Adnodd 1)

Gofynnwch i'r dysgwyr amlygu'r gwahanol achosion ac effeithiau yn yr erthygl a'u hychwanegu at y goeden broblemau. Achosion y broblem sy'n ffurfio gwreiddiau'r goeden; effeithiau'r broblem sy'n ffurfio canghennau'r goeden, a'r datrysiadau i'r broblem yn y dail yw ffrwyth y goeden. Cyfeiriwch at adnodd 3 i weld esiampl o'r goeden broblemau. Wrth i'r dysgwyr gwblhau'r goeden, efallai y byddant yn meddwl am ragor o achosion, effeithiau a datrysiadau. Ydy'r dosbarth yn gytŷn ynghylch achosion, effeithiau a datrysiadau argyfwng yr ymfudwyr?

Gwylwch ragor o'r fideos cyn hybu trafodaeth bellach trwy ddangos symbyliadau gweledol yn ymwneud ag argyfwng yr ymfudwyr, megis y wersyll ffoaduriaid fwyaf neu bobl yn ffoi mewn badau wedi'u gorrwytho (Adnodd 2).

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried a yw portread y cyfryngau o'r teithiau hyn yn cynrychioli gwir brofiad y Cyfweledigion YMW. Sut mae'r cyfryngau'n dangos argyfwng presennol y ffoaduriaid? Dangosir y bobl hyn ar wahanol adegau fel dioddefwyr neu fel bygwth i genedligrwydd / gwerthoedd Prydain. Ydy'r portread hwn yn deg? A yw'r bobl hyn yn debyg i bobl sy'n cael eu geni yng Nghymru? Ai dyhead am fywyd gwell sy'n eu symbylu i ymfudo, ynteu a ydynt wedi cael eu gorfodi i adael eu gwlad? Ystyriwch eto resymau'r dysgwyr dros adael Cymru, a sut byddent am i drigolion eu gwlad newydd eu hystyried nhw.

Gweithgaredd 2: Datrysiadau Creadigol

Cynnulliwch y dosbarth ynghyd a gofynnwch i'r dysgwyr awgrymu sut gellid mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau argyfwng y ffoaduriaid. A allan nhw feddwl am fwy o ffyrdd o ddatrys a gwella'r profiadau y mae ymfudwyr yn byw trwyddynt? Gallai datrysiadau gynnwys codi ymwybyddiaeth o'r sefyllfa trwy gyfrwng cynulliadau ysgol; trefnu sesiwn cyfnewid diwylliannol gyda ffoaduriaid neu ymfudwyr yn yr ardal; trefnu arddangosfa'n esbonio hanesion ymfudwyr yn eich ardal leol, neu wirfoddoli i ddysgu Saesneg iddynt.

I orffen: Trafodaeth Diemwnt 9

Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis eu 9 syniad gorau a ffurfio grwpiau wedyn i osod eu hoff rai yn nhrefn eu blaenoriaeth ar ddiagram Diemwnt 9 (Adnodd 4).

Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu eu hoff syniadau ar nodiadau Post-it a'u gosod o gwmpas yr ystafell. Rhowch ddotiau iddynt i'w glynu ar y syniadau gorau.

Rhannwch y syniadau mwyaf poblogaidd.

Gwers 7

<p>Teitl y Wers:</p>	<p>Gweithredu</p> <p>Bydd y wers hon yn galluogi'r dysgwyr i gynllunio sut i weithredu. Mae hyn yn golygu deall problem a chynllunio at wneud rhywbeth a fydd yn arwain at y newid y maent yn awyddus i'w weld yn digwydd. Mae'n fater o roi gobaith ar waith a sicrhau na fyddwn yn parhau i fyw mewn anwybodaeth.</p>	<p> Cysylltiadau â'r Cwricwlwm:</p> <p>Addysg Bersonol a Chymdeithasol Datblygu cyfathrebiad Gweithio gydag eraill Gwella eich dysg eich hun</p> <p>LNF (Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol) Ysgrifennu Ystyr, dibenion a darllenwyr</p> <p>Y Pedwar Diben (Dyfodol Llwyddiannus) Cyfranwyr mentrus, creadigol</p>
<p>Cwestiynau all-weddol / pwyntiau meddwl</p>	<p>Pe gallech chi newid barn rhywun trwy ddweud un peth, beth fyddech chi'n ei ddweud?</p> <p>Pe gallech chi hybu newid er gwell, beth fyddech chi'n ei wneud?</p> <p>Sut gallwch chi weithio'n effeithiol gydag eraill i hybu gweithredu cadarnhaol?</p>	
<p>Amcanion y wers:</p>	<p>Cynllunio gweithgareddau ar y cyd gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o fod yn Ifanc, Ymfudol a Chymreig (YMW) er mwyn dathlu hunaniaeth, amrywiaeth a pherthyn.</p> <p>Datblygu'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn gweithredu'n effeithiol ar y cyd.</p>	
<p>Dibenion a deilliannau'r wers:</p>	<p>Penderfynu a chynllunio sut i weithredu mewn grŵp gyda'r nod o sefydlu a gwreiddio newid a gwerthuso effeithiau parhaus ei etifeddiaeth.</p>	
<p>Adnoddau:</p>	<p>Ysgolion Noddfa: Rhestr o ddulliau gweithredu dichonol</p> <div style="display: flex; justify-content: space-around; align-items: center;">   </div> <p>Pecyn Cymorth Ysgolion i Ieuenctid y Dyfodol https://sfyouth.eu/index.php/en/sfyouth-toolkit/skills-topics</p>	
<p>Amser sydd eisiau:</p>	<p>60 munud</p>	

I ddechrau: Gweithio fel tîm

Dywedwch wrth y dysgwyr, os ydynt am gynllunio sut i weithredu, fod rhaid iddynt fod yn gallu cydweithredu fel grŵp, gwrando ar safbwyntiau pobl eraill ac ymateb iddynt yn sensitif, a phenderfynu ar y cyd sut i weithredu. Rhannwch y dysgwyr mewn grwpiau i chwarae 'taten boeth'.

Taten boeth


Ysgrifennwch restr o dasgau ar ddarn o bapur. Pasiwch ryw eitem o gwmpas mewn cylch o bobl tra bod miwsig yn chwarae. Pan fydd y miwsig yn stopio chwarae mae'n rhaid i'r person sy'n dal yr eitem gyflawni'r tasg a ddisgrifir ar y papur.

Gallai'r tasgau gynnwys:

- Trefnu aelodau'r grŵp mewn lein yn ôl yr amser y maent yn ei gymryd i deithio yma o'u cartrefi (ni chaniateir ichi siarad â nhw).
 - Trefnu aelodau'r grŵp yn ôl maint eu sgidiau (ni chaniateir ichi siarad â nhw).
 - Mynd o gwmpas y cylch i'ch cyflwyno'ch hun i bob un.
 - Canu inni gân a oedd yn boblogaidd panoeddech chi'n tyfu lan.
 - Lapio'r papur o gwmpas eitem fach.
-

Gweithgaredd 1: Newid Er Gwell

Gofynnwch i'r dysgwyr orffen y datganiadau canlynol ar nodyn Post-it a'u gosod ar ddalen A3:



Heriwch y dysgwyr i ateb y cwestiwn:

Heriwch y dysgwyr i ateb y cwestiwn: Pe gallech chi newid pobl trwy ddweud neu wneud un peth, beth fyddai hyn? (Gallai fod yn un weithred, neu'n newid yn eich ffordd o fyw megis gwirfoddoli'n rheolaidd.) A all y dysgwyr nodi un peth a ddywedodd y Cyfweledigion YMW sydd wedi newid eu barn ynghylch ymfudwyr neu bobl ifanc o gefndir ymfudol yng Nghymru?

Dangoswch i'r dysgwyr i gyd y graffig 'Byddwch yn sicr ynghylch beth rydych chi am ei newid' (adnodd 1), a fydd yn gadael iddyn nhw ddeall sut mae'n bosibl trefnu gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon.

Gweithgaredd 2: Penderfynu sut i weithredu¹

Pa ganlyniadau byddai'r dysgwyr yn hoffi eu gweld yn deillio o'u gweithredu er gwell? Sut gellir gwreiddio'r gweithredu yn adeiladwaith yr ysgol neu'r gymuned? Sut gall dysgwyr rannu eu syniadau? Sut gellir gwerthuso'r gweithredu ar ôl iddo ddod i ben? A fydd yn gadael etifeddiaeth barhaus?

Er mwyn cynllunio at weithredu, mae'n hanfodol bwysig bod pob aelod o'r grŵp yn chwarae rhan lawn. Rhaid i bawb gael dweud eu ddweud ynghylch y pethau y maen nhw am eu newid, a sut maen nhw'n bwriadu mynd ati. I sicrhau bod pob un o'r dysgwyr yn cynnig syniad, gallech chi roi cynnig ar un o'r gweithgareddau yn Adnodd 1. Defnyddiwch Adnodd 2 i symbylu syniadau.

Gweithgaredd 3: Datblygu gweithrediadau

Galluogwch y dysgwyr i ddatblygu cynllun gweithredu effeithiol trwy drefnu cyfarfod llwyddiannus gan ddilyn y canllawiau hyn:

Rhaid sicrhau bod gennych chi:

Gadeirydd da

- Gwnewch yn siŵr bod pawb yn cymryd tro
- Gwylwch rhag gadael i neb gymryd yr awennau ar draul y lleill
- Cadwch bawb yn hapus
- Sicrhewch fod pawb yn cadw at yr agenda

Awyrgylch cyfeillgar

- Rhowch groeso i bawb, byddwch yn greadigol
- Cymerwch seibiau, dewch â bwyd a miwsig
- Cefnogwch benderfyniadau'r grŵp

Nod amlwg

- Rhaid i bawb ddeall yn glir beth yn union yr ydych chi'n ceisio ei gyflawni
- Os ewch chi'n sownd yn y trafodaethau, dychwelwch at y nod gwreiddiol

Agenda glir

- Dyma eich cynllun (Adnodd 1)
- Rhannwch eich cynllun ymlaen llaw
- Gadewch ddigon o amser ar gyfer pob eitem ar yr agenda

Hyrwyddwch bwyntiau gweithredu

- Penodwch rywun i gymryd nodiadau
- Gwnewch yn siŵr fod gennych chi gofnod ysgrifenedig o'ch penderfyniadau



I orffen: Gosodwch dasgau

Hyrwyddwch drafodaeth, a gosodwch dri thasg i chi eich hunan, i'ch ysgol ac i'ch cymuned chi. Rhannwch y tasgau gan bennu dyddiadau ar gyfer eu cyflawni a'u gwerthuso.

Eglurwch i'r dysgwyr fod y bobl ifanc YMW wedi ceisio dehongli'r gair "ymfudwr" a'i achub rhag y cysylltiadau negyddol sydd ganddo yn aml yn y cyfryngau Cymreig. Pa mor lwyddiannus y mae eu hymdrechion wedi bod? Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu eu sylwadau ar ddarn o bapur a'i roi mewn amlen. Pa mor lwyddiannus maen nhw'n credu y byddan nhw?

Rhaid rhoi amser i'r dysgwyr yn awr i ganlyn arni â'u gweithrediadau. Gwnewch yn siŵr eu bod yn cael eu gwerthuso. Gweler Adnodd 3 ar gyfer syniadau ynghylch sut i werthuso eu gweithrediadau.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Addysg bersonol a chymdeithasol

Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2008).

ABGI	Amlinell y Wers	Gwers
<p>Dinasyddiaeth weithgar</p> <p>Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none">• ddatblygu parch atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill• gwerthfawrogi a dathlu amrywiaeth a chydaddoldeb cyfle ar lefel leol, genedlaethol a byd-eang• cael eu cyffwrdd gan anghyfiawnder, ecsbloetio, a gwrthod hawliau dynol• cyfranogi yn yr ysgol a'r gymuned ehangach	<p>Mae'r Dysgwyr yn dysgu am hunaniaeth y gwahanol Gyfweledigion YMW. Mae'r Dysgwyr yn magu dealltwriaeth o ddiwylliannau gwahanol a pharch atynt. Mae'r Dysgwyr yn deall amrywiaeth yng Nghymru. Mae'r Dysgwyr yn dadansoddi'n feirniadol y lluo o resymau dros symud o wlad i wlad. Mae'r Dysgwyr yn deall yr angen am hawliau dynol cyffredin o ganlyniad i ymfudo.</p>	<p>1: Ifanc, Ymfudol, Cymreig</p> <p>2: Yr allwedd i'n hunaniaeth ni</p> <p>3: Pam-pam-pam</p> <p>4: Cardiau post o Gymru</p>
<p>Datblygu meddwl</p> <p>Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none">• ddefnyddio gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith, a rhagfynegi• dadansoddi gwybodaeth a syniadau er mwyn asesu tuedd, dibynadwyedd a dilysrwydd• ystyried gwahanol safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol• defnyddio ystod o dechnegau ar gyfer myfyrdod personol	<p>Mae'r Dysgwyr yn rhoi ar waith eu gwybodaeth flaenorol am resymau pobl dros symud i Gymru a pham maent yn gadael eu cartrefi. Mae'r Dysgwyr yn ystyried y rhwystrau y gall ymfudwyr neu bobl ifanc o gefndir ymfudol eu hwynebu wrth symud i Gymru, ynghyd â safbwyntiau'r bobl ifanc sydd wedi llunio'r adnodd. Mae'r Dysgwyr yn ystyried sut mae'r cyfryngau'n portreadu argyfwng y ffoaduriaid ac effaith hyn ar y rhai sydd wedi dewis ymfudo a'r rhai sydd wedi cael eu gorfodi i ffoi.</p>	<p>3: Pam-pam-pam</p> <p>4: Cardiau post o Gymru</p> <p>6: Y Goeden Broblem</p>



<p>Iechyd a lles emosiynol</p> <p>Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • arddangos ymagwedd gyfrifol at gadw corff a meddwl yn ddiogel ac yn iach • magu ymagwedd gadarnhaol atynt eu hunain ac at eraill. 	<p>Mae'r Dysgwyr yn magu ymagwedd gadarnhaol at y Cyfweledigion YMW a'i gilydd trwy ddarganfod hunaniaethau unigol.</p>	<p>1: Ifanc, Ymfudol, Cymreig</p> <p>2: Yr allwedd i'n hunaniaeth ni</p>
<p>Datblygu cyfathrebu</p> <p>Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • wrando'n graff mewn ystod o sefyllfaoedd ac ymateb yn briodol • cyfleu teimladau a safbwyntiau personol yn effeithiol mewn ystod eang o sefyllfaoedd gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol • mynegi barn yn glwiw a chyfiawnhau safbwynt personol • cymryd rhan mewn trafodaethau a phleidleisio ar fater 	<p>Mae'r Dysgwyr yn gwrando ar y Cyfweledigion yn y ffilm ac ar ei gilydd wrth iddynt gyfweled. Mae'r Dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau i ddylunio arwyddair i Gymru fel cenedl sy'n croesawu ymfudwyr ac yn esbonio sut gallai Cymru ddod yn Genedl Noddfa.</p>	<p>1: Ifanc, Ymfudol, Cymreig</p> <p>2: Yr allwedd i'n hunaniaeth ni</p> <p>4: Cardiau post o Gymru</p> <p>6: Y Goeden Broblemiau</p>
<p>Datblygu TGCh</p> <p>Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ddod o hyd i wybodaeth a syniadau a'u datblygu • creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau • defnyddio TGCh mewn modd diogel a chyfrifol, gan ddilyn arferion diogel 	<p>Mae'r Dysgwyr yn creu ffeithlun yn ymchwilio i ffeithiau ac ystadegau priodol. Mae'r Dysgwyr yn defnyddio technoleg ddigidol i dynnu lluniau sy'n cynrychioli syniadau a themâu allweddol.</p>	<p>3: Pam-pam-pam</p> <p>5: Marathon Lluniau</p>
<p>Datblygu rhif</p> <p>Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gyrchu a dewis data o blith amrywiaeth o ddulliau cyflwyno data ac o wahanol ffynonellau er mwyn hyrwyddo eu dealltwriaeth o faterion yn ymwneud ag ABCh. 	<p>Mae'r Dysgwyr yn defnyddio Cadwyn Pam-pam-pam i ddeall y rhesymau dros ymfudo.</p>	<p>3: Pam-pam-pam</p>

<p>Gweithio gydag eraill</p> <p>Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none">• weithio'n annibynnol ac ar y cyd ag eraill• ffurfio a chynnal cyfeillgarwch, a dechrau trafod ymddygiad mewn cydberthnasau personol• bod yn bendant ac ymwrthod â dylanwaddiagen gan gyfoedion• empatheiddio â phrofiadau, teimladau a gweithredoedd pobl eraill• datblygu a defnyddio ystod o strategaethau i reoli dicter a datrys anghydfod• ymaddasu i sefyllfaoedd sy'n newid• cyrchu ystod briodol o ffynonellau ar gyfer cymorth, cefnogaeth a chyngor	<p>Mae'r Dysgwyr yn empatheiddio â'r Cyfweledigion YMW a hunaniaethau unigryw eu cyfoedion. Mae'r Dysgwyr yn gweithio gydag eraill i gynnal helpa drysor a chreu portreadau gweledol mewn ffotograffau o eiriau allweddol a themâu.</p>	<p>1: Ifanc, Ymfudol, Cymreig</p> <p>5: Marathon Lluniau</p>
<p>Gwella'u dysgu eu hunain</p> <p>Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none">• adnabod a datblygu arddulliau dysgu i wella eu dysgu eu hunain• adolygu a myfyrio ynghylch eu dysgu gan ddadansoddi eu cryfderau a'u gwendidau• cymhwyso'u dysgu i sefyllfaoedd tebyg yn yr ysgol a mewn mannau eraill• rheoli amser a bodloni terfynau amser• rhoi'r cynllun ar waith a gosod targedau• datblygu ystod o dechnegau adolygu i atgyfnerthu dysgu• magu'r sgiliau ymarferol sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd, e.e. gweinyddu cymorth cyntaf sylfaenol.	<p>Mae'r Dysgwyr yn penderfynu sut i weithredu er mwyn hysbysu pobl eraill a gwella profiadau'r rhai sy'n ifanc, ymfudol, Cymreig.</p>	<p>7: Gweithredu</p>

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Adran Addysg a Sgiliau. Fframwaith Cenedlaethol Llythrennedd a Rhifedd
(Llywodraeth Cymru, Mawrth 2013)

Llythrennedd	Disgrifiad o'r wers	Gwers
<p>Strategaethau darllen</p> <ul style="list-style-type: none"> • defnyddio ystod o strategaethau darllen priodol i wneud synnwyr o ddarnau darllen • defnyddio strategaethau i wella rhuglder darllen • asesu safon a dibynnedd darnau darllen. 	<p>Mae'r Dysgwyr yn canfod ac yn gwerthuso gwybodaeth sy'n newydd iddynt.</p>	<p>3: Pam-pam-pam</p>
<p>Ymateb wrth ddarllen: Dealltwriaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> • dod at ddealltwriaeth o wybodaeth anghyfarwydd • adnabod y prif syniadau, digwyddiadau a manylion cynhaliol • rhagweld, tynnu casgliadau, deall haenau ystyr • gwneud cysylltiadau o fewn/ ar draws ystod o ddarnau darllen/themâu • cyflawni ymchwil i fagu dealltwriaeth lawn. 	<p>Mae'r Dysgwyr yn gwneud cysylltiadau ar draws cyfweiliadau a darnau darllen. Mae'r Dysgwyr yn adnabod y prif syniadau a thystiolaeth mewn gwybodaeth am ymfudo, gan gynnwys dehongli ffeithiau ac ystadegau. Mae'r Dysgwyr yn ymchwilio i ddinasoedd ac ysgolion noddfa.</p>	<p>2: Yr allwedd i'n hunaniaeth ni 3: Pam-pam-pam 4: Cardiau post o Gymru</p>
<p>Ymateb wrth ddarllen: Ymateb a dadansoddi</p> <ul style="list-style-type: none"> • trefnu a dadansoddi gwybodaeth berthnasol • gwahaniaethu rhwng ffeithiau, damcaniaethau a gwahaniaethau barn • cymharu ystod safbwyntiau • gwerthuso cynnwys, cyflwyniad a dibynnedd darnau darllen. 	<p>Mae'r Dysgwyr yn darllen ac yn gwerthuso gwybodaeth am ymfudo i ac o Gymru. Mae'r Dysgwyr yn gwerthuso'n feirniadol y negeseuon yn y cyfryngau ynghylch argyfwng y ffoaduriaid.</p>	<p>3: Pam-pam-pam</p>

<p>Ysgrifennu: Ystyr, dibenion a darllenwyr</p> <ul style="list-style-type: none"> • cynllunio ac addasu arddulliau ysgrifennu fel eu bod yn gweddu i'r gynulleidfa a'r diben • gwella safon ysgrifennu trwy gyfrwng adolygu annibynnol ac ail-ddrafftio • ysgrifennu â'r nod o ddelio â thestun yn gyflawn • gwella cyflwyniad yr hyn a ysgrifennir (gan gynnwys defnyddio TGCh) • myfyrio, golygu ac ail-ddrafftio i wella safon yr ysgrifennu. 	<p>Mae'r Dysgwyr yn cynllunio gweithredu i hysbysu a newid gan ddefnyddio arddulliau ysgrifennu amrywiol.</p>	<p>7: Gweithredu</p>
<p>Ysgrifennu: Strwythur a threfniant</p> <ul style="list-style-type: none"> • defnyddio strwythur sy'n briodol i ddiben a chanolbwynt sylw'r tasg • dethol, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth mewn modd priodol • sefydlu strwythur i drefnu sut i ysgrifennu. 	<p>Mae'r Dysgwyr yn dewis strwythur briodol ar gyfer cynrychioli gwybodaeth am ymfudo mewn ffeithlun.</p>	<p>3: Pam-pam-pam</p>
<p>Llafaredd: Siarad</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfleu syniadau a gwybodaeth i ystod eang o gynulleidfaoedd mewn sefyllfaoedd amrywiol. 	<p>Mae'r Dysgwyr yn cyflwyno eu harwyddeiriau i Gymru ac yn egluro sut byddent yn troi Cymru'n Genedl Noddfa.</p>	<p>4: Cardiau post o Gymru 5: Marathon Lluniau</p>
<p>Llafaredd: Gwranddo</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwranddo ar safbwyntiau a syniadau pobl eraill ac ymateb iddynt. 	<p>Mae'r Dysgwyr yn gwranddo ar y ffilm YMW ac yn cymryd nodiadau amdani. Mae'r Dysgwyr yn gwranddo ar ymatebion ei gilydd i gwestiynau cyfweiliad. Mae'r Dysgwyr yn gweithio'n greadigol ar y cyd gan ddadansoddi'n feirniadol broblemau ymfudo yn y gwersi Pam-pam-pam a'r Goeden Broblemau.</p>	<p>1: Ifanc, Ymfudol, Cymreig 2: Yr allwedd i'n hunaniaeth ni</p>
<p>Llafaredd: Cydweithredu a thrafod</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfrannu at drafodaethau a chyflwyniadau • trafod safbwyntiau/syniadau pobl eraill er mwyn cyrraedd cytundeb 	<p>Mae'r Dysgwyr yn gweithio ar y cyd at gynllunio sut i weithredu â'r nod o greu dyfodol gwell ar gyfer ymfudwyr i Gymru a phobl ifanc o gefndir ymfudol.</p>	<p>5: Marathon Lluniau 7: Gweithredu</p>

Addysg dros ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF / ESDGC)

Llywodraeth Cymru. ADCDF: A common understanding in schools (Gorffennaf 2008)

ADCDF	Description	Lesson
<p>Datblygu meddwl ar draws y cwricwlwm</p> <p>Cynllunio</p> <ul style="list-style-type: none"> · Gofyn cwestiynau · Rhoi sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol ar waith <p>Datblygu</p> <ul style="list-style-type: none"> · Meddwl entrepreneuriaidd · Meddwl am achos ac effaith a gwneud casgliadau · Meddwl yn rhesymegol a chwilio am batrymau · Ystyried tystiolaeth, gwybodaeth a syniadau · Ffurfio barnau a gwneud penderfyniadau <p>Myfyrio</p> <ul style="list-style-type: none"> · Cysylltu a meddwl yn ddargyfeiriol 	<p>Mae'r Dysgwyr yn derbyn cyfleoedd i ddatblygu meddwl trwy werthuso profiad pobl ifanc sy'n ymfudwyr a/ neu sydd â threftadaeth ymfudol trwy ofyn cwestiynau, chwilio am atebion trwy gasglu gwybodaeth, gwneud cysylltiadau rhyngddynt eu hunain ac eraill, gan ddefnyddio sgiliau tynnu casgliad a myfyrio'n greadigol ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu. Mae'r Dysgwyr yn derbyn cyfle i feddwl yn greadigol am ffyrdd o droi Cymru'n wlad sy'n croesawu pobl ifanc o gefndiroedd ymfudol, myfyrio ynghylch sut yr hoffent gael eu trin a meddwl yn greadigol am sut i weithredu at gyflawni newid. Yn y pendraw byddant yn dod i gydnabod nad oes y fath beth â 'nhw' a 'ni', a bod pobl ifanc i gyd yn debyg i'w gilydd.</p>	<p>1: Ifanc, Ymfudol, Cymreig</p> <p>2: Yr allwedd i'n hunaniaeth ni</p> <p>3: Pam-pam-pam</p> <p>4: Cardiau post o Gymru</p> <p>5: Marathon Lluniau</p> <p>6: Y Goeden Broblemau</p> <p>7: Gweithredu</p>
<p>Datblygu TGCh ar draws y cwricwlwm</p> <ul style="list-style-type: none"> · Darganfod a datblygu gwybodaeth a syniadau · Creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau 	<p>Mae'r Dysgwyr yn cael cyfle i chwilio am wybodaeth am ymfudo i Gymru ac am ysgolion noddfa, ei lleoli a'i gwerthuso ac i gyflwyno eu canfyddion gan ddefnyddio TGCh.</p>	<p>3: Pam-pam-pam</p> <p>7: Gweithredu</p>

<p>Hunaniaeth a diwylliant</p> <p>Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> · datblygu dirnadaeth o'u gwerthoedd eu hunain · datblygu parch atynt eu hunain, eu diwylliant ac at eraill · gwerthfawrogi, dathlu a dangos sensitifrwydd at amrywiaeth yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang · cwestiynu stereoteipiau · gwerthfawrogi bod gweithredoedd a safbwyntiau pobl yn cael eu dylanwadu gan eu gwerthoedd a deall: · o ble y mae eu credoau'n dod · sut i adnabod mynegiannau o ragfarnau, hiliaeth a stereoteipio - a'u herio'n effeithiol · y cysylltiadau rhwng diwylliant, ffydd a gwerthoedd unigolion · bod eu cymdeithas eu hunain yn cael ei chyfoethogi gan amrywiaeth o ddiwylliannau · effeithiau gweithredoedd yn y gorffennol ar ddiwylliant a hunaniaeth e.e. y fasnach mewn caethweision a choloneiddio 	<p>Mae'r Dysgwyr yn derbyn cyfleoedd i ddatblygu dirnadaeth o hunaniaeth a diwylliant trwy gyfrwng y ffilm a'r lluniau a gynhyrchwyd gan y bobl ifanc sydd wedi llunio'r adnodd. Maent yn dysgu am amrywiaeth a hunaniaeth, gan weld bod gan bobl ifanc i gyd yr un gobeithio a dyheadau, ni waeth am eu cefndir. Maent yn dysgu bod diwylliant, crefydd a ffydd yn gyd-gysylltiedig ac yn dysgu eu parchu eu hunain a pharchu eraill fel unigolion â hunaniaethau unigryw. Annogir y Dysgwyr i benderfynu ar ddull gweithredu neu gyflawni newid yn eu bywydau a fydd yn annog eraill i ddathlu amrywiaeth a chydabod sut mae'r gymdeithas yn cael ei chyfoethogi gan wahanol brofiadau diwylliannol.</p>	<p>1: Ifanc, Ymfudol, Cymreig</p> <p>2: Yr allwedd i'n hunaniaeth ni</p> <p>3: Pam-pam-pam</p> <p>4: Cardiau post o Gymru</p> <p>5: Marathon Llundain</p> <p>6: Y Goeden Problemau</p> <p>7: Gweithredu</p>
<p>Dewisiadau a phenderfyniadau</p> <p>Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> · chwarae rhan yn yr ysgol a'r gymuned ehangach er mwyn newid pethau · datblygu barnau ynghylch amddifadu pobl o'u hawliau dynol · gwerthfawrogi gwerth dadl gytbwys a chadarn · gwerthfawrogi manteision datrys anghydfod yn heddychlon a deall: · cymhlethdod y dasg o wneud penderfyniadau a'r angen am ragofalon · beth a olygir gan hawliau dynol sylfaenol ac nad ydynt gan bawb · egwyddorion democratiaeth · sut y gall anghydfod godi o wahanol farnau ynghylch materion byd-eang 	<p>Mae'r Dysgwyr yn dod i adnabod y problemau sy'n gysylltiedig â symudiad pobl ifanc i ac o Gymru, ac yn enwedig problemau'r rhai a orfodir i ffoi. Maent yn archwilio profiad ffoaduriaid ac yn dysgu am fywydau pobl ifanc sydd o gefndir ymfudol neu wedi ymfudo. Maent yn dysgu bod gennym ni oll fel bodau dynol yr un anghenion. Rhoddir iddynt gyfle i weithio ar y cyd at gynllunio gweithredu, gwneud penderfyniadau a gweithio fel grŵp at gyflawni gweithrediad a fydd yn arwain at newid yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach.</p>	<p>1: Ifanc, Ymfudol, Cymreig</p> <p>2: Yr allwedd i'n hunaniaeth ni</p> <p>3: Pam-pam-pam</p> <p>4: Cardiau post o Gymru</p> <p>5: Marathon Llundain</p> <p>6: Y Goeden Problemau</p> <p>7: Gweithredu</p>

Pedwar Diben (Dyfodol Llwyddiannus)

Yr Athro Graham Donaldson. Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru (Chwefror 2015) tud.31

Y dyfodol: Pedwar diben y cwricwlwm a'r nodweddion allweddol	Trosolwg	Gwersi
<p>Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes sydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn gosod safonau uchel iddynt eu hunain ac yn chwilio am heriau ac yn eu mwynhau • yn datblygu corff o wybodaeth ac sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i gysylltu'r wybodaeth honno a'i chymhwyso at wahanol gyd-destunau • yn ymholgar ac yn mwynhau datrys problemau • yn gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg • yn gallu egluro'r syniadau a chysyniadau y maent yn dysgu amdanynt • yn gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau • yn deall sut i ddehongli data a chymhwyso cysyniadau mathemategol • yn defnyddio technolegau digidol yn greadigol i gyfathrebu a dod o hyd i wybodaeth a'i dadansoddi • yn ymchwilio ac yn gwerthuso eu canfyddiadau'n feirniadol ac yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes. 	<p>Mae'r Dysgwyr yn meddwl yn feirniadol gan ofyn pam bod pobl yn symud i ac o Gymru a beth yw'r effaith arnynt o adael eu diwylliant eu hunain? Maent yn meddwl am y ffactorau sy'n debyg ac yn wahanol i'r profiadau y maent yn byw trwyddynt yng Nghymru. Mae'r Dysgwyr yn ymgymryd ag ymchwil annibynnol i'r ffeithiau a'r ystadegau yng nghyswllt ymfudiad rhwng gwahanol wledydd. Maent yn adnabod y problemau, eu heffaith a datrysiadau'r gwahaniaethau hynny gan ystyried a ydynt yn rhwystr rhag mwynhau hawliau dynol. Mae'r Dysgwyr yn ysgwyddo cyfrifoldeb am sicrhau bod Cymru'n lle da i symud iddo: Cenedl Noddfa ddichonol. Maent yn mynegi eu syniadau trwy ddehongli'r data a defnyddio technolegau digidol i ganfod gwybodaeth a'i gwerthuso. Mae'r Dysgwyr yn adnabod ac yn dehongli themâu a syniadau allweddol mewn lluniau ac yn creu eu delweddau eu hunain.</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1: Ifanc, Ymfudol, Cymreig 2: Yr allwedd i'n hunaniaeth ni 3: Pam-pam-pam 4: Cardiau post o Gymru 5: Marathon Lluniau 6: Y Goeden Broblemiau

<p>Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn yn eu bywyd a'u gwaith, sydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion • yn meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau • yn adnabod cyfleoedd ac yn manteisio arnynt • yn mentro'n bwylllog • yn arwain ac yn chwarae rolau gwahanol mewn timau'n effeithiol ac yn gyfrifol • yn mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol gyfryngau • yn rhoi o'u hegni a'u sgiliau fel y bydd pobl eraill yn elwa 	<p>Gofynnir i'r Dysgwyr feddwl yn greadigol i geisio gwneud synnwyr o themâu hunaniaeth ac amrywiaeth yng Nghymru a'u cymuned. Maent yn ystyried yn greadigol ba mor bwysig yw perthyn. Mae'r Dysgwyr yn chwilio ar y cyd am ddatrysiadau i sicrhau bod ymfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael eu croesawu i'r gymuned Gymreig; maent yn dosbarthu gwybodaeth, ac yn gweithredu. Mae'r Dysgwyr yn defnyddio technoleg ddigidol i greu marathonau lluniau a fideos, sy'n cyfrannu yn y pendraw at greu arddangosfa.</p>	<p>1: Ifanc, Ymfudol, Cymreig</p> <p>2: Yr allwedd i'n hunaniaeth ni</p> <p>5: Marathon Lluniau</p> <p>7: Gweithredu</p>
<p>Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd ac sydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn • yn trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd • yn deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd • yn deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu • yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol • yn parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol • yn dangos eu hymrwymiad i sicrhau cynaliadwyedd y blaned 	<p>Mae'r Dysgwyr yn defnyddio tystiolaeth gan y Cyfweledigion YMW, ffeithiau ac ystadegau i ddeall y profiadau y mae ymfudwyr yn byw trwyddynt a rhai'r bobl â threftadaeth ymfudol yng Nghymru. Maent yn myfyrio ynghylch diwylliant eu cymuned eu hunain er mwyn dathlu amrywiaeth a phwysigrwydd cydnabod hunanieth unigol pawb arall. Mae'r Dysgwyr yn nodi'r hawliau a'r cyfrifoldebau a gysylltir â symudiad pobl i ffwrdd o wrthdaro ac anghydfod tuag at ddyfodol diogel. Mae'r Dysgwyr yn gweithio ar y cyd at weithredu.</p>	<p>1: Ifanc, Ymfudol, Cymreig</p> <p>2: Yr allwedd i'n hunaniaeth ni</p> <p>3: Pam-pam-pam</p> <p>4: Cardiau post o Gymru</p> <p>6: Y Goeden Broblemiau</p> <p>7: Gweithredu</p>



<p>Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas sydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • â gwerthoedd sicr ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol • yn meithrin eu lles meddyliol ac emosïynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi • yn cymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer ar iechyd corff a meddwl yn eu bywyd pob dydd • yn gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i gadw'n ddiogel ac yn iach • yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol • yn gwneud penderfyniadau pwyllog ynghylch eu ffordd o fyw ac yn rheoli risg • â'r hyder sydd ei angen i gymryd rhan mewn perfformiadau • yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd • yn wynebu heriau ac yn eu trechu • â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio â'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallant 	<p>Mae'r Dysgwyr yn empathieiddio â'r Cyfweledigion YMW i ddeall eu hawlau a'u cyfrifoldebau i groesawu a chofleidio diwylliannau eraill. Mae'r Dysgwyr yn rhoi llais i'w credau ynghylch natur hunaniaeth mewn ffyrdd creadigol trwy chwarae rolau a ffotograffiaeth. Mae'r Dysgwyr yn cael eu grymuso i ddysgu mewn ffordd gyfranogol. Mae'r Dysgwyr yn sefydlu credau moesegol tra'n ystyried ffactorau sy'n gysylltiedig ag ymfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches.</p>	<p>1: Ifanc, Ymfudol, Cymreig</p> <p>2: Yr allwedd i'n hunaniaeth ni</p> <p>4: Cardiau post o Gymru</p> <p>6: Y Goeden Broblemiau</p>
--	---	---

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm Adnodd

Cymhwysedd Digidol

Fframwaith Cymhwysedd Digidol – Canllawiau (Llywodraeth Cymru, 2016)

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/160831-dcf-guidance-en-v2.pdf>

ADCDF

Education for Sustainable Development and Global Citizenship A Common Understanding for Schools
(Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/081204commonunderstschoolsen.pdf>

Cwricwlwm am Oes

Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes (Llywodraeth Cymru, 2015)

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/151021-a-curriculum-for-wales-a-curriculum-for-life-en.pdf>

Donaldson, Graham Athro

Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru (2015)

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-en.pdf>

Addysg Oxfam dros Ddinasyddiaeth Fyd-Eang

Education for Global Citizenship: A guide for schools (Oxfam GB, 2015)

[file:///C:/Users/User/Downloads/Global_Citizenship_Schools_WEB%20\(3\).pdf](file:///C:/Users/User/Downloads/Global_Citizenship_Schools_WEB%20(3).pdf)

Global Citizenship in the Classroom: A guide for teachers (Oxfam GB, 2015)

file:///C:/Users/User/Downloads/Global_Citizenship_guide_for_Teachers_WEB.pdf

Schools of Sanctuary: Giving a Warm Welcome

<https://www.oxfam.org.uk/education/Adnodd/schools-of-sanctuary>

Adnoddau o sefydliadau elusenol

National City of Sanctuary

<https://schools.cityofsanctuary.org/Adnodd/>

Cyngor Ffoaduriaid Cymru

<http://welshrefugeecouncil.org.uk/>

Asiantaeth Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig

<http://www.unhcr.org/uk/>

UNHCR: Global Trends: Forced displacement in 2016 (UN Refugee Agency, 2017)

<http://www.unhcr.org/5943e8a34.pdf>

It's All About Culture

<http://itsallaboutculture.com/great-migrations-lecture-and-maps/>

Adnodd 1a

Hunaniaeth



Adnodd 1a

Hunaniaeth



Adnodd 1b

Llun o'r Cyfweledigion YMW



Adnodd 2¹

Gair Allweddol	Diffiniad
Ymfudwr(aig)	Rhywun sy'n symud o le i le er mwyn byw mewn gwlad arall am fwy na blwyddyn. Mae ymfudwyr economaidd yn symud er mwyn chwilio am waith.
Ffoadur	Rhywun sydd wedi derbyn amddiffynfa gan lywodraeth gwlad arall, am ei fod yn ofni bod ei fywyd mewn perygl yn ei wlad ei hun.
Ceisiwr lloches	Mae ceisiwr lloches yn berson sydd wedi gofyn i Lywodraeth y DU am amddiffynfa neu statws ffoadur. Mae lloches yn golygu amddiffynfa, noddfa, neu ddiogelwch.

¹ Migrants, refugees and asylum seekers: what's the difference? gan Alan Travis, 28^{ain} Awst 2015
www.theguardian.com/world/2015/aug/28/migrants-refugees-and-asylum-seekers-whats-the-difference

Adnodd 3

Llun yn dangos sut mae'r bobl ifanc yn dehongli'r gair 'cartref'



C



B



A

Adnodd 4

Proffiliau'r bobl ifanc sydd wedi datblygu'r adnodd.

Cyfweledig	Mamwlad	Oedran	Hobiau
A	Y DU	16	Carate, Actio
B	Syria	23	Gwirfoddoli
C	Albania	24	Darllen, Gwirfoddoli

Adnodd 5

Grid KWL (Beth rwy'n ei wybod, Beth rwy eisiau ei wybod, beth rwy wedi'i ddysgu)


Grid KWL:

Pethau RWY'N CREDU 'MOD I'N EU GWYBOD YN BAROD	
Pethau RWY EISIAU EU GWYBOD	Beth RWY WEDI'I DDYSGU

Adnodd 6

Diagram Venn

Enw : _____



Adnodd 7



Adnodd 1

Didoli cwestiynau o'r cyfweiliadau



Adnodd 2

Gwneud Cysylltiadau

Rwy' wedi gwyllo'r fideos YMW.


Mae hyn yn fy atgoffa i amdanaf fy hunan oherwydd...

Mae hyn yn fy atgoffa i am rywun rwy'n 'nabod oherwydd...

Mae hyn yn fy atgoffa i am rywbeth sy'n digwydd yn y byd oherwydd...

Adnodd 3

Winwnsyn Hunaniaeth




Adnodd 1

Gweithgaredd Peli Eira

Yn gyntaf, dywedwch wrth y dysgwyr ysgrifennu eu hatebion i wahanol gwestiynau (e.e. ystyriwch pam byddai pobl yn ystyried symud o'u gwlad i ail-ymgartrefu yng Nghymru) ar ddarn o bapur. Wedyn gofynnwch iddynt grychu'r papur i wneud pelen eira a'i thafllu ar draws yr ystafell. Unwaith mae pawb wedi gwneud hyn, anogwch bob dysgwr i godi pelen eira a daflwyd gan rywun arall. Maent yn agor y belen eira i ymateb i'r atebion sydd ar y papur. Ydy'r ateb yn debyg i'r hyn a ysgrifennon nhw ar eu peli eira eu hunain, neu ydy'n hollol wahanol? Gofynnwch gwestiynau ychwanegol i'r dysgwyr i ehangu eu syniadau a'u sylwadau, gan ystyried yr holl elfennau gwahanol o ymfudo, i mewn i Gymru ac allan o Gymru. Bydd hyn yn arwain y dysgwyr i ddarogan, i grynhoi ac i feddwl yn feirniadol.


Adnodd 2

Ymfudiadau ar draws y Byd



Adnodd 3

Cadwyn Pam-pam-pam



Ffynhonnell: Ffynhonnell: Global Citizenship in the Classroom: A guide for teachers (Oxfam, 2015)

<https://www.oxfam.org.uk/education/Adnoddsglobal-citizenship-in-the-classroom-a-guide-for-teachers>

Adnodd 4

Bingo Byd-Eang

1. Yn hoffi bwyd o wlad arall. Enw	2. Mae ganddi/ganddo ffrind a gafodd ei (g)eni mewn gwlad arall. Enw	3. Wedi ymweld â gwlad y tu allan i Ewrop. Enw
4. Yn gallu dweud rhai geiriau mewn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg. Enw	5. Yn hoffi e.e. mabolgampwr(aig) neu gerddor o wlad arall. Enw	6. Wedi darllen llyfr neu gerdd gan awdur o wlad arall. Enw
7. Yn gwisgo dillad a gafodd eu gwneud mewn gwlad arall. Enw	8. Wedi byw mewn gwlad arall. Enw	9. Mae ganddi/ganddo aelod teulu neu ffrind sy'n byw mewn gwlad arall. Enw
10. Wedi cael ei helpu gan athrawes/athro, meddyg, nyrs neu oedolyn tebyg o wlad arall. Enw	11. Yn 'nabod busnes (siop er enghraifft) sy'n cael ei redeg gan bobl o wlad arall. Enw	12. Hoffai hi/e fyw mewn gwlad arall. Enw


Adnodd 5

Mapio symudiadau


Mae Asiantaeth Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig wedi adrodd bod "nifer uwch nag erioed o'r blaen o bobl ledled y byd, sef 65.6 miliwn, wedi cael eu gorfodi i adael eu cartrefi. Yn eu plith mae yn agos i 22.5 miliwn o ffoaduriaid, y mae mwy na'u hanner dan 18 oed."

www.unhcr.org/uk/figures-at-a-glance.html

Wedi'u dadleoli o'u hanfodd




I ble mae ffoaduriaid yn mynd?



Ffigur 4 | Y prif wledydd sy'n cynnig noddfa i ffoaduriaid

O ble mae ffoaduriaid yn dod



Adnodd 1

Cartref



Adnodd 2

Cardiau Post o Gymru





Adnodd 3

Beth gellir ei wneud?

Cyfeiriwch at adnoddau Ysgolion Noddfa Oxfam ar gyfer rhagor o wybodaeth a syniadau ynghylch gwersi:

<https://www.oxfam.org.uk/education/Adnods/schools-of-sanctuary>

Gweithrediad 1: Gweithrediad 1: Addysgwch eich ysgol am y syniad o noddfa a hyrwyddwch agweddau positif. Byddwch yn dysgu rhagor am ffoaduriaid a cheiswyr lloches ac yn trosglwyddo'r hyn yr ydych chi wedi'i ddysgu i fyfyrwyr ac aelodau staff eraill: Gweler tudalen 2.

Gweithrediad 2: Anogwch eich ysgol i gasglu gwybodaeth ac i feddwl yn ddwysach am ba mor goresawgar yw hi. Gwelwch y syniadau ynghylch meysydd ymchwil ar dudalen 3.

Gweithrediad 3: Defnyddiwch eich dylanwad i alluogi eich ysgol i ddod yn Ysgol Noddfa. Gweler tudalen 4 ar gyfer cyfarwyddyd ynghylch trefnu cyfarfod i ddwyn perswâd ar eich prifathrawes/prifathro neu uwch arweinwyr eraill.

Adnodd 4

Chwe chwestiwn hanfodol

Pwy?
Beth?
Ble?
Pryd?
Pam?
Sut?

Adnodd 5

Petai heddiw yn emoji...



Adnodd 1

Rhestr o eiriau allweddol

Hunaniaeth	Perthyn	Amrywiaeth
Ymfudwr	Ffoadur	Lloches
Cymuned	Hobïau	Diwylliant

Adnodd 2

Petai heddiw yn emoji



Rhywbeth Cymreig



Rhywbeth sy'n datgan: Abertawe



Cerdyn post o Gymru



Hunlun nad yw'n dangos dy wyneb di



Hunaniaeth



Cerdyn post o Gymru



Symud ymlaen, edrych tuag yn ôl



Symud ymlaen, edrych tuag yn ôl



Bywyd trwy 'snapchat filter'



Hunan-bortread di-wyneb



Adnodd 1

Pobl sy'n cael eu gorfodi i ffoi: **Beth yw'r ffactorau?**

Heb sôn am weddill y byd, yn 2015 gwelwyd mwy nag un filiwn o bobl yn cyrraedd ffiniau Ewrop i ddianc rhag erchyllterau rhyfel, erlyniad ac amodau byw annioddefol mewn gwledydd megis Syria, Eritrea, Affganistan ac Irac. Mae pobl yn ymfudo am lu o resymau uchelgeisiol hefyd, e.e. i ehangu eu haddysg neu i wella eu cyfleoedd.

Mae pob un yn haeddu byw yn ddiogel. Ond yn aml pan fydd pobl yn symud o le i le maent ar eu mwyaf agored i niwed. Mae pobl yn dyheu am fwyd, lloches, ac am gael eu trin gyda pharch ac urddas. Ond yn aml maent yn wynebu anghysur, gelyniaeth, ymddygiad ymosodol a hiliaeth yn y gwledydd y maent yn teithio trwyddynt neu lle maent yn ymsefydlu ar ddiwedd eu taith.

Dylai llywodraethau weithio ar y cyd at wneud ymfudo'n ddiogel. Ni ddylai fod rhaid i bobl ymgymryd â mesurau tra pheryglus er mwyn cyrraedd diwedd eu taith. Ni waeth o ble maent wedi dod, mae gan bobl sy'n ymfudo yr hawl i ddisgwyl y cânt eu trin gydag urddas ac y perchir eu hawliau dynol. Mae hyn yn wir am bawb sy'n ymgymryd â thaith, ni waeth am ba reswm y maent yn ymfudo.

Mae gan elusennau rôl wrth iddynt gynnig cymorth i bobl sydd newydd gyrraedd Ewrop i fodloni eu hanghenion mwyaf sylfaenol megis dŵr, bwyd poeth a rhywle i gysgu. Gallant helpu newydd-ddyfodiaid hefyd i gyrchu gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd ac i wreiddio yn eu cymunedau newydd.

Addaswyd o: Refugees and Migrants Crisis in Europe; Oxfam International Public Engagement Toolkit (Oxfam, 2016)

Ffynhonnell: Bagloriaeth Cymru: Ffoaduriaid (Adnoddau Addysg Oxfam)

<https://www.oxfam.org.uk/education/resources/welsh-baccalaureate-refugees>

Adnodd 2

**Problemau a datrysiadau ymfudwyr,
ffoaduriaid a cheiswyr lloches**



Llun: Pablo Tosco/Oxfam

Adnodd 2



Llun: Pablo Tosco/Oxfam

Ffynhonnell: Bagloriaeth Cymru: Ffoaduriaid (Adnoddau Addysg Oxfam)
<https://www.oxfam.org.uk/education/resources/welsh-baccalaureate-refugees>

Adnodd 2

Bidi Bidi, y wersyll ffoaduriaid fwyaf yn Wganda




Llun: Menywod yn cludo dŵr yn ôl i'w llochesau yng ngwersyll ffoaduriaid Bidi Bidi yn Wganda. Mae'r wlad honno'n llochesu miliwn o bobl erbyn hyn o Dde Swdan, sydd wedi ffoi rhag rhyfel a newyn yn eu mamwlad. **Llun gan:** Coco McCabe/Oxfam

Ffynhonnell: McCabe, Coco: In Uganda, a million refugees from South Sudan—with a million stories to tell (Oxfam America First Person Blog, 2017)

<https://firstperson.oxfamamerica.org/2017/08/in-uganda-a-million-refugees-from-south-sudan-with-a-million-stories-to-tell/>


Adnodd 3




Ffynhonnell: Global Citizenship in the Classroom: A Guide for Teachers (Oxfam GB, 2015)
www.oxfam.org.uk/education/Adnoddsglobal-citizenship-in-the-classroom-a-guide-for-teachers

Adnodd 4

Diemwnt 9



Adnodd 1



Rhaid iddynt sicrhau hefyd fod eu cynllun yn un SMART:

- S** Penodol - gellir ei ddiffinio'n glir
- M** Mesuradwy - gellir mesur unrhyw newid sy'n digwydd
- A** Cyraeddadwy - mae'n bosibl ichi ei gyflawni
- R** Realistig - gellir ei gyflawni â'r adnoddau sydd ar gael ichi
- T** Amser-gyfyngol - gellir ei gyflawni o fewn yr amser sydd ar gael (mewn un tymor er enghraifft)

Adnodd 2

Syniadau ar gyfer penderfynu syniad

Syniad 1

- Tynnwch neu ddychmygwch linell ar draws y llawr sy'n cynrychioli sbectrwm o wahanol safbwyntiau – o 'Cytuno'n llwyr' ar un pen i 'Anghytuno'n llwyr' ar y pen arall.
- Rhaid i bawb ysgrifennu syniad ar nodyn Post-it. Darllenwch rai o'r syniadau'n uchel a gofynnwch i bawb sefyll ar y rhan o'r llinell sy'n cynrychioli orau eu barn o ran: a ddylid defnyddio'r syniad yn eu grŵp nhw neu beidio.
- Gofynnwch i bobl sydd ar wahanol fannau ar hyd y llinell i esbonio eu safbwynt ac wedyn gofynnwch iddynt newid eu lleoliad os ydynt wedi cael eu perswadio i newid eu barn.

Syniad 2

- Ysgrifennwch y syniadau y mae diddordeb gan bobl ynddynt, a rhannwch y dysgwyr yn grwpiau llai wedyn i archwilio'r dau neu dri syniad mwyaf poblogaidd.
- Neilltuwch dipyn o amser i ymchwilio i'r syniadau gan ddefnyddio gwefannau elusennau; ystyriwch sut gall eich grŵp helpu, a pha bobl eraill y gallech chi gysylltu â nhw i weithredu. Ymchwiliwch i elusennau megis EYST ac Oxfam i ddysgu pa ymgyrchoedd, gweithgareddau a digwyddiadau sy'n cael eu trefnu ar hyn o bryd. A allai eu gwybodaeth arbenigol fod yn gymorth ichi? Gwahoddwch siaradwr(aig) o Oxfam i'ch ysgol i ddweud wrthyh chi am y gwaith gwerthfawr y mae Oxfam yn ei gyflawni. Ymchwiliwch i elusennau a grwpiau arbenigol sy'n helpu ffoaduriaid yn eich ardal.
- Piniwch bopeth a ddysgwch chi ar y wal a gofynnwch i aelodau'r grŵp benderfynu pa syniad y maent yn teimlo gryfaf amdano.



Syniad 3

- Cynhaliwch gyfweiliad ag athro/athrawes, pennaeth yr ysgol, neu ffigur leol.
- Gofynnwch iddynt am eu sylwadau ynghylch y syniadau sydd o ddiddordeb ichi, a siaradwch â nhw am sut gallent eich cynorthwyo chi.

Adnodd 3

- Crëwch ddathliad o amrywiaeth a chydraddoldeb yn y dosbarth, wedi'i seilio ar y gweithrediadau yr ydych chi'n mynd i'w cyflawni
 - Ysgrifennwch lythyr perswadiol i hybu'r digwyddiad yr ydych chi'n ei drefnu
 - Trefnwch gyfarfod cynllunio
 - Cynhaliwch ddigwyddiad diwylliannol lle gellir cydrannu ieithoedd, bwydydd, ffyrdd o ddathlu, barddoniaeth, miwsig, ffilm
 - Gwirfoddolwch am ddiwrnod
 - Gweithiwch ar y cyd â'ch siop Oxfam agosaf i gynnal arddangosfa am wythnos yn y siop o'r hyn yr ydych chi wedi'i ddysgu
 - Lluniwch adnodd dysgu i gefnogi dysgwyr Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL) yn eich ysgol fel rhan o'ch testun, gan ddefnyddio'r lluniau a'r ffilmiau a gynhyrchwyd gan ddysgwyr yn yr adnodd yma
 - Ysgrifennwch stori am ymfudo
 - Casglwch straeon newyddion am ymfudo am wythnos a mapiwch nhw: trydarwch am y straeon hyn bob dydd
 - Gwahoddwch y cynghorydd lleol i'ch ysgol i siarad â'r dysgwyr am amrywiaeth, hawliau a chyfrifoldebau, ac am yr hyn y mae'r gymuned leol yn ei wneud yn eich ardal i gefnogi hyn
 - Cysylltwch ag elusennau lleol a chenedlaethol i ofyn am gefnogaeth a gwybodaeth
 - Trefnwch gyfweiliadau ag ymfudwyr, ffoaduriaid neu geiswyr lloches yn eich ardal
 - Gwnewch eich ffilm eich hunain yn dathlu amrywiaeth ddiwylliannol yn eich ysgol
-

-
- Trefnwch arddangosiadau sy'n dathlu amrywiaeth
 - Trefnwch 'iaith y mis' i ddatlu gwahanol ieithoedd yn yr ysgol
 - Sefydlwch glybiau sgwrsio lle gall plant nad ydynt yn siarad Saesneg/Cymraeg ymarfer siarad â siaradwyr Saesneg/Cymraeg
 - Darparwch lyfrau ym mamiaith y plant hyn
 - Adolygwch bolisi ac ethos yr ysgol
 - Trefnwch brosiectau ar themâu teithiau neu noddfa
 - Darllenwch lyfrau ffuglen yn y dosbarth ar themâu teithiau neu noddfa
 - Chwiliwch am gysylltiadau ar hyd hanes mewn ffuglen a llenyddiaeth ffeithiol, ffilmiau, dramâu
 - Cysylltwch â'r amgueddfa leol i weld a oes arddangosiadau ar gael ganddi i'w rhoi ar fenthyg, gan gynnwys arteffactau a thoriadau papur newydd
 - Hyrwyddwch weithredu cadarnhaol, e.e. ysgrifennu i'ch Aelod Seneddol, cefnogi elusennau lleol sy'n gweithio gyda ffoaduriaid
 - Trefnwch waith gwirfoddol i ffoaduriaid lleol
 - Crëwch ardd noddfa neu lyfrgell noddfa
 - Trefnwch broses ymsefydlu
 - Sefydlwch system gyfeillio
 - Rhowch wisgoedd ysgol neu wisg Addysg Gorfforol ar fenthyg
 - Darparwch gymorth ar gyfer disgyblion EAL
 - Cysylltwch â gweithgareddau allgyrsiol a ddarperir gan elusennau neu grwpiau cymorth yn yr ardal
 - Trefnwch ddigwyddiad i arddangos y gwaith yr ydych chi wedi'i wneud

Adnodd 4

Teitl y Cyfarfod:	Dyddiad:
Enwau'r bobl yn y cyfarfod	
Enwau'r bobl nad oeddent yn gallu dod	
Adroddwch yn ôl ar yr hyn y cytunodd pobl i'w wneud yn y cyfarfod diwethaf	
Eitem agenda 1 (Crynowch yma)	Gweithrediadau a gytunwyd Pwy sy'n arwain: Beth sydd eisiau ei wneud: Pryd mae angen iddo ddigwydd: Pwy ddylai helpu: Mae llwyddiant yn edrych fel...
Eitem agenda 2 (Crynowch yma)	Gweithrediadau a gytunwyd Pwy sy'n arwain: Beth sydd eisiau ei wneud: Pryd mae angen iddo ddigwydd: Pwy ddylai helpu: Mae llwyddiant yn edrych fel...



<p>Eitem agenda 3 (Crynowch yma)</p>	<p>Gweithrediadau a gytunwyd</p> <p>Pwy sy'n arwain: Beth sydd eisiau ei wneud: Pryd mae angen iddo ddigwydd: Pwy ddylai helpu: Mae llwyddiant yn edrych fel....</p>
<p>Eitem agenda 4 (Crynowch yma)</p>	<p>Gweithrediadau a gytunwyd</p> <p>Pwy sy'n arwain: Beth sydd eisiau ei wneud: Pryd mae angen iddo ddigwydd: Pwy ddylai helpu: Mae llwyddiant yn edrych fel...</p>
<p>Unrhyw fusnes arall (Eitemau nad oeddent ar yr agenda)</p>	<p>Gweithrediadau a gytunwyd</p> <p>Pwy sy'n arwain: Beth sydd eisiau ei wneud: Pryd mae angen iddo ddigwydd: Pwy ddylai helpu: Mae llwyddiant yn edrych fel...</p>
<p>Cytunwch ar ddyddiad, lle ac amser y cyfarfod nesaf</p>	

Adnodd 5

Syniadau ar gyfer gwerthuso prosiect²

Syniad 1

Gofynnwch i'r grwpiau ysgrifennu'ch cwestiynau a gweithio ar y cyd i'w hateb.

- **Canlyniadau'r prosiect**
 - Sut oeddech chi'n teimlo am y canlyniadau?
 - Beth ddysgoch chi o'r prosiect?
- **Dyrannu tasgau**
 - Pa mor dda y cyflawnwyd y tasgau?
- **Gwaith tîm**
 - Pa mor dda rydych chi wedi cyfathrebu yn y tasgau?
- **Cyfathrebu**
 - Pa mor dda rydych chi wedi llwyddo i gael pobl eraill i gymryd rhan yn y gweithrediadau?
 - Beth mae'n rhaid ichi ei wneud nesaf?

Syniad 2 - Tair Cadair

- Eisteddwch â'ch cadeiriau mewn cylch gan adael tair cadair yn wag
- Symudwch o gwmpas fel petaech chi'n chwarae Newid Cadair gyda Miwsig, nes eich bod yn stopio ar gadair
- Ysgrifennwch ar y cadeiriau gwag:
 - Beth fwynheuais i fwyaf
 - Y brif her
 - Beth fyddwn i'n ei newid...
- Pan fydd dysgwyr yn stopio ar gadair, mae'n rhaid iddynt ateb y cwestiwn